YSGOL GYMRAEG BLAENDULAIS

CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

A

CHYNLLUN MYNEDIAD YSGOL

Llofnodwyd gan Gadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad cymeradwyo: 06/09/18
(gan y corff llywodraethu llawn)

Dyddiad adolygu: Medi 2019

Gyda'n Gilydd Cerddwn Ymlaen

Cynnwys ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS)

1. Ein cymeriad, gwerthoedd, blaenoriaethau ac amcanion nodedig 3

1.1 Gwerthoedd yr ysgol
1.2 Nodweddion ein hysgol
1.3 Prif ffrydio cydraddoldeb mewn polisi ac arfer
1.4 Pennu ein hamcanion cydraddoldeb

2. Cyfrifoldebau

5

2.1 Corff Llywodraethu
2.2 Uwch Dîm Arweinyddiaeth
2.3 Staff – addysgu ac nad ydynt yn addysgu

3. Casglu gwybodaeth ac ymgysylltu 6

3.1 Diben a phroses
3.2 Mathau o wybodaeth a gesglir
3.3 Ymgysylltu

4. Asesiad Effaith Cydraddoldeb 8

5. Amcanion a Chynlluniau Gweithredu 8

6. Cyhoeddi ac adrodd 9

7. Monitro ac Adolygu 9

Atodiadau

Atodiad 1 Amcanion Cydraddoldeb Rhanbarthol 11

Atodiad 2 Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu'r Ysgol 12

Atodiad 3 Cynllun Mynediad yr Ysgol 15

1. Ein Cymeriad, Blaenoriaethau ac Amcanion Nodedig

1.1 Gwerthoedd yr ysgol

Yn Ysgol Gymraeg Blaendulais, rydym yn ymrwymedig i sicrhau cydraddoldeb addysg a chyfle i'r holl ddisgyblion, staff, rhieni a gofalwyr sy'n derbyn gwasanaethau gan yr ysgol, ni waeth beth yw eu hanabledd, hil, rhyw, oedran, tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil. Ceisiwn ddatblygu diwylliant o gynhwysiad ac amrywiaeth sy'n galluogi pawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol i deimlo'n falch o'i hunaniaeth, a chyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol.

Caiff cyflawniad disgyblion ei fonitro, a byddwn yn defnyddio'r data hwn i gefnogi disgyblion, codi safonau a sicrhau addysgu cynhwysol. Byddwn yn mynd i'r afael â gwahaniaethu drwy hyrwyddo cydraddoldeb yn gadarnhaol, herio bwlio ac ystrydebau a chreu amgylchedd sy'n hyrwyddo parch at bawb. Yn Ysgol Gymraeg Blaendulais, credwn fod amrywiaeth yn gryfder y dylid ei barchu a'i ddathlu gan bawb sy'n addysgu, ac yn dysgu yma, ac yn ymweld â'r ysgol.

1.2 Nodweddion ein hysgol

Mae Ysgol Gymraeg Blaendulais ym mhentref Blaendulais yng Nghwm Dulais. Mae'n gwasanaethu pentrefi Creunant, Blaendulais, Pantyffordd, Onllwyn a Dyffryn Cellwen.

Mae'r ysgol, a agorwyd yn 1961, yn ysgol gynradd mynediad un dosbarth gyda thua 110 o blant ar y gofrestr mewn dosbarthiadau gallu cymysg.

Mae 5 ystafell ddosbarth sy'n cynnwys ystafell y Cyfnod Sylfaen yn ogystal â dosbarthiadau prif ffrwd. Mae gennym neuadd, ffreutur ar wahân a llyfrgell.

Mae gan Ysgol Gymraeg Blaendulais staff sy'n ffurfio tîm cyfeillgar a gweithgar. Mae gan bob aelod o'r staff gyfrifoldeb am wahanol feysydd y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn ymrwymedig i ddatblygiad proffesiynol parhaus er mwyn galluogi staff i gyflawni eu rolau'n effeithiol. Yn ogystal â'r staff addysgu mae gennym gynorthwywyr dosbarth. Mae gan tua 4% o ddisgyblion hawl i brydau bwyd ysgol am ddim, ffigwr sy'n is na chyfartaleddau'r awdurdod addysg leol (AALl) a chyfartaleddau cenedlaethol ac yn anarferol o isel i'r ardal. Mae'r ysgol wedi ei phennu yn ysgol ddwyieithog sy'n golygu mae prif gyfrwng yr addysgu yw'r Gymraeg a chyflwynir Saesneg pan fydd y disgyblion yn saith oed.
Mae un ar ugain disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae trefniadau derbyn yr ysgol yn dilyn polisi derbyn yr AALl, ac nid yw'n anffafrio disgyblion sydd ag ADY. Mae tua 97% o ddisgyblion yn dod o gartrefi Saesneg eu hiaith, y gweddill o gartrefi Cymraeg.

1.3 Prif ffrydio cydraddoldeb mewn polisi ac arfer

Yn ogystal â'r camau penodol a amlinellir yn y cynllun hwn, mae'r ysgol yn gweithredu cyfle cyfartal yn ei harfer o ddydd i ddydd yn y ffyrdd canlynol.

Rydym yn ceisio rhoi'r cyfle i bob disgybl lwyddo a chyrraedd y lefel uchaf o gyflawniad personol. I wneud hyn, byddwn yn:

- defnyddio data cyd-destunol i wella'r ffyrdd rydym yn darparu cefnogaeth i unigolion a grwpiau o ddisgyblion;
- monitro data cyflawniad yn ôl y nodweddion amrywiol a warchodir a chymryd camau mewn perthynas ag unrhyw fylchau;
- ystyried cyflawniad yr holl ddisgyblion wrth gynllunio ar gyfer dysgu yn y dyfodol a gosod targedau heriol;
- sicrhau cydraddoldeb mynediad i'r holl ddisgyblion a'u paratoi ar gyfer bywyd mewn cymdeithas amrywiol;
- defnyddio deunyddiau sy'n adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth yr ysgol a'r gymuned leol o ran y nodweddion amrywiol a warchodir, heb ystrydebau;
- hyrwyddo agweddau a gwerthoedd a fydd yn herio ymddygiad hiliol a gwahaniaethol arall neu ragfarn;
- darparu cyfleoedd i ddisgyblion werthfawrogi eu diwylliant eu hunain a dathlu amrywiaeth diwylliannau eraill;
- ceisio cynnwys yr holl rieni wrth gefnogi addysg eu plant;
- annog trafodaeth yn yr ystafell ddosbarth a'r ystafell staff am faterion cydraddoldeb sy'n myfyrio ar ystrydebau cymdeithasol, disgwyliadau a'r effaith ar ddysgu;
- cynnwys dulliau addysgu ac ystafell ddosbarth sy'n briodol i boblogaeth yr ysgol gyfan, sy'n gynhwysol ac yn adlewyrchu ein disgyblion

1.4 Pennu ein hamcanion cydraddoldeb

Rydym yn cydnabod ein dyletswydd a'n cyfrifoldeb i sefydlu cydraddoldeb i'n holl ddysgwyr, staff, aelodau eraill cymuned yr ysgol a defnyddwyr gwasanaeth, ni waeth beth yw eu hil, rhyw, anabledd, ailbennu rhywedd, tueddfryd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gred, priodas neu bartneriaeth sifil fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2012.

Diben ein **Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS)** yw cyflawni'r dyletswyddau i hyrwyddo cydraddoldeb i bobl â 'nodweddion a warchodir', a gwreiddio tegwch a chydraddoldeb yng nghalon cymuned ein hysgol ac ym mhob agwedd ar gynlluniau a pholisïau ein hysgol.

Wrth bennu'r amcanion cydraddoldeb ar gyfer yr ysgol hon, byddwn yn rhoi ystyriaeth briodol i ddyletswydd gyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb:

1. Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf;
2. Datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a warchodir perthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu; mae hyn yn golygu
    a. dileu neu leihau anfanteision a ddioddefir gan bobl sy'n rhannu nodwedd a warchodir sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno
    b. cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl sy'n rhannu nodwedd a warchodir berthnasol sy'n wahanol i anghenion y bobl nad ydynt yn ei rhannu
    c. annog pobl sy'n rhannu nodwedd a warchodir berthnasol i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn unrhyw weithgaredd arall lle mae cyfranogaeth gan bobl o'r math yn anghymesur o isel

3. Meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a warchodir berthnasol a'r bobl nad ydynt yn ei rhannu

Pennir ein CCS ac Amcanion Cydraddoldeb yng ngoleuni'r canlynol:

- Yr amcanion cydraddoldeb rhanbarthol a nodwyd yn **atodiad 1;**
- barn a fynegwyd gan randdeiliaid sydd wedi bod yn rhan o ddatblygu'r cynllun;
- materion sy'n codi o ganlyniad i ddadansoddi ein data disgyblion e.e. cyrhaeddiad bechgyn o'u cymharu â merched;

Bydd cyflwyno ein CCS yn cyfrannu at ein holl gamau gweithredu a'n hymrwymiadau i:

- godi safonau;
- lleihau'r bwlch cyrhaeddiad mewn deilliannau i blant a phobl ifanc;
- gwella deilliannau fel y'u disgrifir yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc (CPPI);
- hyrwyddo cydlyniant cymunedol

Amlinellir Amcanion Cydraddoldeb yr Ysgol yn **adran 5 (t.10) ac Atodiad 2.**

2. Cyfrifoldebau

2.1 Corff Llywodraethu

Mae'r corff llywodraethu wedi nodi ei ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth yn y cynllun hwn, a bydd yn parhau i wneud popeth o fewn ei allu i sicrhau bod yr ysgol yn gwbl gynhwysol i ddisgyblion, ac yn ymateb i'w hanghenion, yn seiliedig ar y nodweddion a warchodir amrywiol. Mae'r Corff Llywodraethu yn:

- ceisio sicrhau na wahaniaethir yn erbyn pobl wrth iddynt wneud cais am swyddi yn ein hysgol
- cymryd yr holl gamau rhesymol i sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn rhoi mynediad i bobl ag anableddau, a hefyd yn ymdrechu i wneud cyfathrebu mor gynhwysol â phosib i rieni, gofalwyr a disgyblion
- sicrhau na wahaniaethir yn erbyn unrhyw blentyn pan fydd yn ein hysgol

Er mwyn cyflawni ei ddyletswydd adrodd, bydd y corff llywodraethu'n adrodd ar gynnydd y CCS bob blwyddyn, fel rhan o'i Adroddiad Blynyddol i rieni.

2.2 Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)

Mae'r UDA yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn dileu gwahaniaethu drwy:

- roi CCS yr ysgol ar waith, gyda chefnogaeth y Corff Llywodraethu wrth wneud hynny;
- sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u dyletswyddau o dan y ddeddf ac wedi'u hysbysu'n llawn am CCS ac amcanion cydraddoldeb ein hysgol;

- sicrhau bod yr holl baneli apwyntiadau'n ystyried y cynllun hwn, fel na wahaniaethir yn erbyn unrhyw un o ran cyfleoedd cyflogaeth neu hyfforddiant;
- hyrwyddo egwyddor cyfle cyfartal wrth ddatblygu'r cwricwlwm, a hyrwyddo parch at bobl eraill a chyfle cyfartal i gymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol;
- trin holl achosion triniaeth annheg ac unrhyw achosion o fwlio neu wahaniaethu, gan gynnwys digwyddiadau hiliol, yn ôl polisïau'r awdurdod a'r ysgol
- sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o hyn

2.3 Staff – addysgu ac nad ydynt yn addysgu

Mae'r ysgol yn ystyried cydraddoldeb i bawb yn gyfrifoldeb i bawb. Mae pob aelod o staff yn cyfrannu at sicrhau bod ein hysgol yn gymuned deg, gyfiawn a chydlynol drwy:

- sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael eu trin yn deg, yn gyfartal a chyda pharch, a bydd yn cynnal ymwybyddiaeth o CCS yr ysgol;
- ymdrechu i ddarparu deunydd a fydd yn rhoi delweddau cadarnhaol yn seiliedig ar nodweddion a warchodir ac yn herio delweddau ystrydebol;
- herio unrhyw achosion o ragfarn, hiliaeth neu homoffobia, a chofnodi unrhyw ddigwyddiadau difrifol fel y rhagnodir ym mholisïau'r AALl a'r ysgol e.e. adrodd am ddigwyddiadau hiliol;
- cefnogi gwaith staff atodol a chefnogi a'u hannog i ymyrryd mewn ffordd gadarnhaol yn erbyn unrhyw ddigwyddiadau gwahaniaethol

3. Casglu gwybodaeth ac ymgysylltu

3.1 Diben a phroses

Mae casglu gwybodaeth yn hanfodol i'n cefnogi i benderfynu pa gamau gweithredu i'w cymryd i wella cydraddoldeb a dileu gwahaniaethu yng nghymuned yr ysgol. Yn dilyn hyn, mae'r wybodaeth hefyd yn ein helpu i adolygu ein perfformiad, felly mae'n rhaid iddi fod yn ddigon manwl i'n galluogi i fesur sut rydym yn cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb. Mae'r wybodaeth hefyd yn ein helpu i wneud asesiad effaith manwl cywir a nodi pa rai o amcanion yr ysgol a gyflawnwyd, a'r hyn y mae angen i ni ei wneud yn well.

Mae ymgysylltu hefyd yn seiliedig ar yr wybodaeth a gasglwyd ynghylch cynrychiolaeth grwpiau gwahanol. Rydym yn ceisio gwneud hyn mor llawn â phosib wrth gydnabod materion sensitifrwydd o ran y gwahanol nodweddion a warchodir. Rydym yn cymryd camau penodol i sicrhau bod plant a phobl ifanc anabl, rhieni a gofalwyr yn cael eu cynnwys yn ôl eu hawl. Y rheswm pam mae'r cynnydd hwn yn bwysig yw er mwyn deall holl amrywiaeth anghenion cymuned yr ysgol.

3.2 Mathau o wybodaeth a gesglir

Mae'r amrywiaeth eang o wybodaeth a gesglir i gefnogi ein cynllunio a chamau i hyrwyddo cydraddoldeb a dileu gwahaniaethu yn cynnwys y canlynol ac yn dilyn canllawiau newydd Diogelu Data 2018:

- dadansoddi'r ymatebion a dderbyniwyd gan ddisgyblion, rhieni/gofalwyr, staff, llywodraethwyr a grwpiau cymunedol yn dilyn dosbarthu holiadur i bennu materion cydraddoldeb. Nid yw'r cwestiynau a gynhwysir yn yr holiadur yn amlygu nodweddion a warchodir penodol, ond maent yn ceisio barn gyffredinol rhanddeiliaid;
- nodi plant a phobl ifanc, rhieni, gofalwyr, staff a defnyddwyr eraill yr ysgol sy'n cynrychioli'r nodweddion a warchodir gwahanol, os yw'n bosib ac yn briodol. Mae hyn yn ein helpu i ddatblygu a monitro'r cynllun. Gwneir ymdrechion cynhwysfawr a sensitif i gasglu gwybodaeth gywir a bodloni gofynion diogelu data, yn ogystal â'n dyletswydd i sicrhau gwybodaeth gywir sy'n ymwneud ag ethnigrwydd a mamiaith;
- cyrhaeddiad disgyblion a data cynnydd sy'n ymwneud â grwpiau gwahanol;
- ceisio barn plant a phobl ifanc a'u cynnwys mewn ffordd sy'n gweld gwerth i'w cyfraniad;
- gwybodaeth am sut mae grwpiau gwahanol yn cael mynediad i'r cwricwlwm cyfan a sut maent yn gwneud dewisiadau rhwng y dewis o bynciau;
- dewisiadau chwaraeon a gweithgareddau fesul grŵp;
- gweithgareddau cyfoethogi fesul grŵp
- dadansoddi data gwaharddiadau wedi'i ddadansoddi fesul grŵp;
- cofnodion bwlio ac aflonyddu ar sail unrhyw fater cydraddoldeb
- data ar recriwtio, datblygu a chadw gweithwyr;
- canlyniadau gweithgareddau sy'n hyrwyddo ymgysylltu cymunedol a chydlyniant cymunedol;
- canlyniadau camau a gymerwyd i sicrhau cynnwys rhieni ac eraill y nodwyd ei bod yn anodd ymgysylltu â hwy;

3.3 Ymgysylltu

Mae'r ysgol yn cynnwys **rhanddeiliaid** gan gynnwys plant a phobl ifanc, staff, rhieni/gofalwyr, llywodraethwyr a phobl eraill sy'n defnyddio'r ysgol o ran dyletswyddau cydraddoldeb. Rydym yn ystyried dulliau cyfathrebu o ddewis y rhai rydym yn ymgynghori â hwy e.e. deunydd a gyfieithwyd neu gyfleusterau dehongli ar gyfer pobl anabl neu'r sawl y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt neu sydd newydd gyrraedd y wlad hon.

Ystyrir barn rhanddeiliaid a grwpiau eraill sy'n ymwneud â chydraddoldeb o ddifrif wrth i ni bennu blaenoriaethau.

4. Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Mae asesiad effaith yn cyfeirio at adolygu'r holl gynlluniau a pholisïau presennol ac arfaethedig er mwyn ein helpu i weithredu i hyrwyddo cydraddoldeb ac i sicrhau nad yw unrhyw berson o dan anfantais o ganlyniad i weithgareddau'r ysgol oherwydd gwahaniaethu. Mae asesiadau effaith yn broses barhaus i sicrhau bod cynlluniau a pholisïau'r ysgol yn cael eu datblygu mewn ffordd gynhwysol a theg.

Fel rhan o gydymffurfio'r ysgol hon â dyletswyddau penodol y Ddeddf, byddwn yn parhau i gyflawni asesiad effaith o bob polisi a chynllun newydd cyn ei roi ar waith. Yn yr un modd, byddwn yn cyflawni asesiad effaith o'n polisïau a'n cynlluniau presennol pryd bynnag y cânt eu hadolygu. Yn y modd hwn, caiff asesiadau effaith eu cynnwys yn nhrefn adolygu a diwygio pob polisi'r ysgol.

Lle mae asesiadau effaith wedi'u cyflawni, byddant yn dylanwadu ar newidiadau i bolisi ac adolygiad y CCS ei hun.

5. Amcanion a Chynlluniau Gweithredu

Ein Hamcanion Cydraddoldeb dewisedig yw

1. Gwneud y CCS yn rhan o ddiwylliant gweithio Ysgol Gymraeg Blaendulais
2. Datblygu'n sail tystiolaeth
3. Cyflawni'r Cynllun Gweithredu

Mae gennym gynlluniau gweithredu sy'n cynnwys yr holl amcanion (Atodiad 2). Mae'r rhain yn disgrifio sut rydym yn cymryd camau i gyflawni'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol

Mae ein Cynlluniau Gweithredu wedi'u croesgyfeirio â Chynllun Datblygu'r Ysgol, sy'n sicrhau eu bod yn cael eu gwirio, eu monitro a'u gwerthuso'n addas.

Mae'r cynlluniau gweithredu'n dangos:

- amcanion a chamau gweithredu penodol
- effaith ddisgwyliedig a dangosyddion cyflawniad (meini prawf)
- amserlenni clir
- gan bwy y mae'r cyfrifoldeb arweiniol
- goblygiadau o ran adnoddau
- dyddiadau penodol ar gyfer asesiad effaith ac adolygiad.

Mae'r ysgol yn gwerthuso effeithiolrwydd y CCS yn rheolaidd, drwy'r corff llywodraethu, adolygiadau AALl a chydag Estyn pan gaiff yr ysgol ei harolygu.

6. Cyhoeddi ac adrodd

Mae'r ysgol yn darparu copi o'i CCS a'i chynllun gweithredu i gyflawni ei hamcanion cydraddoldeb mewn amrywiaeth o fformatau ac yn sicrhau ei fod ar gael i rieni/gofalwyr ac eraill, gan gynnwys y sawl y nodir ei bod yn anodd ymgysylltu â hwy.

Mae'r ysgol yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar y cynnydd a wnaed ar y cynlluniau gweithredu ac effaith y CCS ei hun ar ethos yr ysgol ac arfer yn yr ysgol. Cyflawnir hyn fel rhan o Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr.

Caiff yr holl ddata a gesglir ei ddefnyddio at ddibenion dadansoddi tueddiadau', fesul nodwedd a warchodir, o ran perfformiad, defnyddio gwasanaethau a gynigir gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol a'u boddhad ohonynt. Caiff gwybodaeth o'r fath ei storio ar wahân i wybodaeth bersonol sy'n nodi'r unigolyn. Er mwyn amddiffyn hunaniaeth yr unigolion pan gyhoeddir gwybodaeth am dueddiadau, ni chyhoeddir unrhyw gyfrif sy'n cynnwys llai na 5 unigolyn.

7. Monitro ac Adolygu

Fel rhan o'n cyfrifoldeb am fonitro'r CCS, rydym yn ymrwymo i:

- ailedrych ar yr wybodaeth a'r data a ddefnyddiwyd i nodi blaenoriaethau ar gyfer y CCS a'r cynlluniau gweithredu, a'i ddadansoddi. Mae hyn yn cynnwys defnyddio trosolwg o'r canlyniadau;
- defnyddio'r asesiadau effaith i sicrhau bod y camau gweithredu a gymerwyd yn cael effaith gadarnhaol ar draws yr holl nodweddion a warchodir, bod hyrwyddo cydraddoldeb yn ganolog i gynllunio'r ysgol a bod gwahaniaethu'n cael ei ddileu'n effeithiol.

Mae adolygu'r CCS yn cyfeirio'r gwaith o'i ddiwygio, pennu blaenoriaethau newydd a chynlluniau gweithredu. Mae'r broses hon yn parhau i:

- gynnwys amrywiaeth llawn o randdeiliaid;
- bod yn seiliedig ar dystiolaeth – defnyddio gwybodaeth a data mae'r ysgol wedi'u casglu a'u dadansoddi;
- defnyddio'r dystiolaeth i gynnal asesiad effaith manwl cywir a fydd yn cyfeirio blaenoriaethau

Byddwn yn cyflawni adolygiad llawn o'n CCS erbyn mis Medi 2019.

Ysgol Gymraeg Blaendulais

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2017 - 2021

Atodiadau

Atodiad 1 Amcanion Cydraddoldeb Rhanbarthol
Atodiad 2 Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu'r Ysgol
Atodiad 3 Cynllun Mynediad Cyfredol yr Ysgol

Amcanion Cydraddoldeb Rhanbarthol

Consortiwm Awdurdodau De-orllewin a Chanolbarth Cymru (ERW)

1. **Lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad rhwng bechgyn a marched a rhwng grwpiau a warchodir eraill fel y'u nodir mewn data lleol**

Mae ymchwil genedlaethol yn nodi anghydraddoldebau yn y lefelau cyrhaeddiad rhwng rhywiau ac ethnigrwydd a rhwng pobl anabl a'r rhai nad ydynt yn anabl. Mae bechgyn, disgyblion du, Bangladeshaidd a Phacistanaidd a phlant anabl oll yn perfformio'n wael ar gyfartaledd o'u cymharu â grwpiau eraill.

2. **Rhoi Canllawiau Gwrth-Fwlio newydd Llywodraeth Cymru ar waith a lleihau bwlio sy'n seiliedig ar hunaniaeth mewn ysgolion**

Canfu Arolwg Cymru Gyfan o fwlio mewn ysgolion (LlC 2009) fod amrywiaeth o fwlio yn seiliedig ar hunaniaeth yn bresennol mewn ysgolion ledled Cymru. Mae enghreifftiau'n cynnwys 22% o ddisgyblion Blwyddyn 6 'a gafodd eu bwlio mewn ffordd homoffobig'; roedd 7% o ddisgyblion Blwyddyn 7 wedi cael eu 'bwlio mewn rhyw ffordd oherwydd anawsterau dysgu' a 3% 'wedi'u bwlio mewn rhyw ffordd oherwydd hil neu darddiad ethnig'.

3. **Lleihau bylchau mewn lefelau presenoldeb rhwng gwahanol grwpiau a warchodir fel y'u nodir mewn data lleol**

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i wella dadansoddi data sy'n gallu nodi gwahaniaethau mewn tueddiadau presenoldeb rhwng grwpiau o ddisgyblion â gwahanol nodweddion a warchodir. Mae sawl adroddiad wedi'i gomisiynu'n genedlaethol sy'n archwilio presenoldeb plant Sipsiwn neu blant Teithwyr Gwyddelig. Canfu pob un fod presenoldeb yn is ymhlith y plant hyn.

4. **Lleihau nifer y bobl ifanc NEET**

Mae gan Gymru gyfran uwch o bobl heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ymhlith y grŵp 16 i 24 oed na Lloegr. Mae bod yn NEET yn anfantais fawr i bobl ifanc.

5. **Gwella mynediad i wybodaeth a mynediad corfforol i ysgolion a lleoliadau dysgu eraill i ddisgyblion, rhieni a staff**

Mae'n rhaid bod Penaethiaid a Llywodraethwyr yn hyderus y gall yr holl ddisgyblion gael mynediad rhesymol i wasanaethau, ac nad ydynt o dan anfantais anghyfiawn am eu bod yn meddu ar unrhyw un o'r nodweddion a warchodir. Mae gan ysgolion Gynlluniau Mynediad Anabledd ar waith eisoes. Fodd bynnag, mae angen i ysgolion ac awdurdodau lleol, drwy ddyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus, ddarparu ar gyfer anghenion yr holl grwpiau a warchodir, felly mae'r cwmpas yn ehangach na Chynlluniau Mynediad Anabledd.

6. **Cynyddu ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth ymhlith disgyblion, staff a Llywodraethwyr.**

Mae Arweiniad Anstatudol ar Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn nodi bod 'rhaid i gorff a restrir yng Nghymru (gan gynnwys ysgolion) wneud trefniadau priodol i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o ddyletswyddau cyffredinol a phenodol ymhlith ei weithwyr.' Yng nghyd-destun yr ysgol, rydym am ehangu hwn i gynnwys disgyblion a Llywodraethwyr.

Atodiad 2

Ysgol Gymraeg Blaendulais
Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2017 - 2021
Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu

Amcan Cydraddoldeb 1
Ail gyhoeddi a hyrwyddo Cynllun Cydraddoldeb (CCS) yr ysgol a ddatblygwyd ynghlwm a'r Ddeddf Cydraddoldeb drwy gymuned yr ysgol.

Ein Hymchwil
Rhanddeiliaid newydd heb wybod am y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a sut y bydd yr amcanion yn cael eu rhoi ar waith.

Gwybodaeth o Ymgysylltu:
I sicrhau fod y rhanddeiliaid, gan gynnwys rhanddeiliaid newydd, yn ymwybodol o amcanion cydraddoldeb yr ysgol gan eu cyflwyno mewn cylchlythyron ysgol, ar y safwe ac wrth eu trafod mewn cyfarfodydd staff a llywodraethol.

Datblygiad Data:
Cesglir data pellach gan randdeiliaid yr ysgol i fesur llwyddiant ac y bo pawb yn ymwybodol o amcanion y cynllun.

Bernir bod yr amcan hwn yn llwyddiannus os yw…
Y randdeiliaid allweddol (staff, rhieni a llywodraethwyr) yn dangos dealltwriaeth o nodweddion cydraddoldeb yr ysgol ac yn cyfrannu'n bositif wrth eu rhoi ar waith.

Camau Gweithredu:

	Disgrifiad	Cyfrifoldeb	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
1.1	Ail gyhoeddi amcanion cydraddoldeb yng nghylchlythyron ac ar safwe'r ysgol.	Pennaeth	Hydref 2018	Hydref 2019
1.2	Trafod y CCS a'i amcanion mewn cyfarfodydd staff a llywodraethwyr.	Pennaeth	Chwefror 2019	Chwefror 2019
1.3	Sicrhau fod y rhanddeiliaid yn cael eu gwahodd i ymuno a'r broses o roi'r cynllun gweithredu ar waith i gyrraedd yr amcanion cydraddoldeb.	Pennaeth Rhanddeiliaid	Hydref 2018	Parhaus

Ysgol Gymraeg Blaendulais
Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2017 - 2021
Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu

Amcan Cydraddoldeb 2
Sicrhau hygyrchedd safonol i wybodaeth a mynediad ffisegol i'r ysgol ar gyfer holl ddisgyblion, staff a llywodraethwyr.

Ein Hymchwil
Angen i ni fod yn hyderus y gall holl ddisgyblion, staff ac ymwelwyr yn cael mynediad teg i holl ardaloedd yr ysgol ac nad ydynt yn cael eu anfanteisio mewn unrhyw ffordd. Er bod gennym Gynllun Mynediad Anabledd a Chynlluniau Mynediad, mae angen i ni ddarparu ar gyfer grwpiau wedi'u diogelu tu allan i ystod y cynlluniau mynediad anabledd.

Tra bod gwelliannau wedi'u gwneud i wella mynediad i'r ac o gwmpas yr adeilad, o fewn y strategaeth a'r cynlluniau mynediad mae angen sicrhau fod y gwelliannau yn parhau a bod disgyblion sydd ag anableddau yn cymryd rhan gymaint ag sy'n rhesymol yn holl weithgareddau'r ysgol.

Gwybodaeth o Ymgysylltu:
Mae'r ysgol yn ymrwymo ei hun yn gryf i sicrhau ystod o weithgareddau addysgol. O'r herwydd, mae'n hanfodol pan gwyd sefyllfaoedd fod disgyblion gydag anableddau yn cael hygyrchedd i'r holl weithgareddau yma.

Datblygiad Data:
D/B

Bernir bod yr amcan hwn yn llwyddiannus os yw…
Ein bod yn gallu dangos fod disgyblion ag anableddau yn derbyn yr un cyfleoedd (ble'n rhesymol) i gael mynediad i weithgareddau i ffwrdd o'r safle, yn enwedig gweithgareddau'r tu allan.

Camau Gweithredu:

	Disgrifiad	Cyfrifoldeb	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
1.1	Cyfarfodydd staff i drafod ffyrdd o sicrhau mynediad i blant anabl i weithgareddau i ffwrdd o'r safle ac i ymweliadau ysgol.	Pennaeth / Dirprwy Holl Staff	Pan gwyd yr angen.	Pan gwyd yr angen.
1.2	Os gwyd yr angen, crëir dogfen gyfarwyddol gan yr ysgol i gefnogi ac arwain athrawon a staff eraill sy'n cynllunio i fynd a disgyblion anabl ar ymweliadau i ffwrdd o'r safle, yn enwedig addysg y tu allan e.e. coedwigoedd a thraethau cyfagos.	Pennaeth / Dirprwy Holl Staff	Pan gwyd yr angen.	Pan gwyd yr angen.

Ysgol Gymraeg Blaendulais
Cynllun Mynediad 2017 – 2021

Atodiad 3

RHAN A : Gwella amgylchedd ffisegol yr ysgol er mwyn cynyddu'r cyfleoedd y gall unigolion anabl fanteisio ar addysg a gwasanaethau a gynigir gan yr ysgol.

1. Gweithgareddau	2. Meini Prawf Llwyddiant	3. Cyfrifoldebau	5. Cost	6. Monitro	7. Gwerthuso
Tymor Byr (1 Blwyddyn) Sicrhau fod y brif fynedfa yn addas ar gyfer pobl anabl. Sicrhau fod gweithdrefnau gwagio'r adeilad wedi'u darparu ar gyfer yr HOLL ddisgyblion.	Y brif fynedfa yn hygyrch i bobl anabl. Gweithdrefnau gwagio'r adeilad mewn lle ar gyfer yr HOLL ddisgyblion	Pennaeth Corff Llywodraethol Awdurdod Addysg NPT Pennaeth Corff Llywodraethol	Parhaus	Arolygon a holiaduron i'w cwblhau gan bobl abl ac anabl. Arolwg gan y gwasanaeth tân.	Parhaus (2017-2021) -Drws llydan newydd i'r fynedfa -Arwyddian tan newydd sydd yn addas/ cyfarwyddo i ofynion
Tymor Canolig (2 Fl.) Sicrhau fod y llwybrau o gwmpas safle'r ysgol yn hygyrch i bawb. Sicrhau fod yr ardaloedd ar gyfer yr anabl wedi'u harwyddo'n glir.	Llwybrau o gwmpas safle'r ysgol yn hygyrch i bawb a bod y trefniadau parcio'n ddiogel. Ardaloedd ar gyfer yr anabl wedi'u harwyddo'n glir.	Pennaeth Corff Llywodraethol Pennaeth Corff Llywodraethol	Parhaus Parhaus	Trafodaethau gyda'r anabl sy'n defnyddio'r safle, a phobl sydd â phrofiad uniongyrchol o'r anabl. Ydy'r llwybrau a'r trefniadau yn rhesymegol? Trafodaethau gyda'r anabl sy'n defnyddio'r safle, a phobl sydd â phrofiad uniongyrchol o'r anabl . Ydy'r ardaloedd ar gyfer yr anabl wedi'u harwyddo'n glir?	Parhaus (2017-2021) -ramp i'r caban yn cael ei drwsio -ramp a drws newydd i'r caban
Tymor Hir (3 Blynedd) Adolygu mynediad ar gyfer yr anabl – sicrhau fod trefniant a maint yr ardaloedd i gyd yn caniatáu mynediad i'r anabl.	Adolygu mynediad presennol ar gyfer yr anabl yn effeithiol – sicrhau bod trefniant a maint yr ardaloedd yn caniatáu mynediad i bob disgybl.	Pennaeth Corff Llywodraethol	Parhaus	Trafodaethau gyda'r anabl sy'n defnyddio'r safle, a phobl sydd â phrofiad uniongyrchol o'r anabl a'r staff - Ydyn ni'n darparu mynediad effeithiol i'r anabl?	Parhaus (2017-2021) -Drws llydan newydd i'r fynedfa

Ysgol Gymraeg Blaendulais
Cynllun Hygyrchedd Plan 2017-2021

RHAN B : Cynyddu'r tuedd y gall disgyblion anabl ymgymryd â chwricwlwm yr ysgol.

1. Gweithgareddau	2. Meini Prawf Llwyddiant	3. Cyfrifoldebau	5. Cost	6. Monitro	7. Gwerthuso
Tymor Byr (1 Blwyddyn) Sicrhau fod yr holl athrawon a chynorthwywyr yn derbyn hyfforddiant addas i ddysgu a chefnogi disgyblion anabl. Sicrhau fod dosbarthiadau wedi'u trefnu ar gyfer disgyblion anabl.	Athrawon a chynorthwywyr yn derbyn hyfforddiant addas i ddysgu a chefnogi disgyblion anabl. Dosbarthiadau wedi'u trefnu ar gyfer disgyblion anabl.	Cydlynydd Hyfforddiant Pennaeth Pennaeth Corff Llywodraethol	Cyllid ble'n addas.	Adborth i bawb gan y staff sy'n mynychu hyfforddiant. Trafodaethau gyda rhieni disgyblion a staff ayyb.	Parhaus (2017-2021) -Ystafell yr Enfys -ELSA -Relationship Based Play -Staffio BF, KE, AD
Tymor Canolig (2 Fl.) (Pan gwyd achos) Annog disgyblion anabl i ymgymryd â cherddoriaeth, drama a gweithgareddau corfforol. Archwilio i a darparu dulliau gwahanol o roi mynediad i ddisgyblion anabl na all ymgymryd â gweithgareddau penodol.	Disgyblion anabl yn ymgymryd â cherddoriaeth, drama a gweithgareddau corfforol. Dulliau gwahanol mewn lle i roi mynediad i ddisgyblion anabl na all ymgymryd â gweithgareddau penodol.	Pennaeth Corff Llywodraethol Pennaeth Corff Llywodraethol	Parhaus Parhaus	Trafodaethau gyda rhieni disgyblion a staff ayyb. Ydy disgyblion anabl yn ymgymryd â gweithgareddau? Trafodaethau gyda rhieni disgyblion a staff ayyb i fonitro cynnydd.	Parhaus (2017-2021)
Tymor Hir (3 Blynedd) Sicrhau fod holl ymweliadau ysgol gan gynnwys ymweliadau preswyl yn hygyrch i holl ddisgyblion beth bynnag eu cyrhaeddiad na'u hamhariad.	Holl ymweliadau ysgol gan gynnwys ymweliadau preswyl wedi bod yn hygyrch i holl ddisgyblion beth bynnag eu cyrhaeddiad na'u hamhariad.	Pennaeth Corff Llywodraethol Athrawon dosbarth	Parhaus	Trafodaethau gyda rhieni disgyblion a staff ayyb i fonitro cynnydd. A ydy'r holl ddisgyblion anabl wedi ymgymryd â'r holl ymweliadau?	Parhaus (2017-2021)

Ysgol Gymraeg Blaendulais
Cynllun Hygyrchedd 2017 – 2021

RHAN C : Gwella'r ddarpariaeth o wybodaeth ysgrifenedig i ddisgyblion nad sy'n anabl.

1. Gweithgareddau	2. Meini Prawf Llwyddiant	3. Cyfrifoldebau	5. Cost	6. Monitro	7. Gwerthuso
Tymor Byr (1 Blwyddyn) Sicrhau fod staff yn ymwybodol o'r dechnoleg a'r dulliau sydd wedi'u datblygu i gynorthwyo'r anabl.	Staff yn ymwybodol o'r dechnoleg a'r dulliau sydd wedi'u datblygu i gynorthwyo'r anabl.	Pennaeth Staff Corff Llywodraethol	Parhaus	Trafodaethau Staff fel rhan o Reoli Perfformiad i fonitro ymwybyddiaeth o'r dechnoleg ddiweddaraf.	Parhaus (2017-2021)
Sicrhau fod y Corff Llywodraethol yn ymwybodol o'u ddyletswyddau a'u gyfrifoldebau dan y Ddeddf Gydraddoldeb.	Y Corff Llywodraethol yn ymwybodol o'u ddyletswyddau a'u gyfrifoldebau dan y DdG.	Corff Llywodraethol	Parhaus	Cyfarfodydd CLl. Trafodaethau CLl.	
Tymor Canolig (2 Flwyddyn) Sicrhau fod gwybodaeth yn cael ei gyflwyno i grwpiau mewn dulliau sy'n addas ar gyfer defnyddwyr gydag anableddau.	Gwybodaeth yn cael ei gyflwyno i grwpiau mewn dulliau sy'n addas ar gyfer defnyddwyr gydag anableddau.	Pennaeth Staff Corff Llywodraethol	Parhaus	Trafodaethau gyda phobl anabl er mwyn sicrhau fod y wybodaeth gyflwynwn yn addas ar eu cyfer.	Parhaus (2017-2021 -CAU
Defnyddio cyfleusterau i gynhyrchu gwybodaeth ysgrifenedig mewn maint ffont amrywiol.	Gwybodaeth ysgrifenedig wedi'i gyflwyno mewn maint ffont amrywiol.	Pennaeth Staff	Parhaus	Ydy'r wybodaeth gyflwynwn yn addas? Oes mwy gallwn ei wneud?	Parhaus (2017-2021)
Tymor Hir (3 Blynedd) Darparu gwybodaeth mewn iaith syml, symbolau, print bras, ar CD ROM, mewn Braille (ble bo'r galw) ar gyfer unigolion sy'n cael anhawster gyda gwybodaeth wedi'i argraffu mewn dulliau cyffredin.	Gwybodaeth wedi'i ddarparu mewn iaith syml, ayyb ar gyfer unigolion sy'n cael anhawster gyda gwybodaeth mewn dulliau cyffredin.	Pennaeth Staff Corff Llywodraethol	Parhaus	Adolygu ein trefniadau presennol ac asesu'r angen i ddarparu gwybodaeth wedi'i ddarparu mewn iaith syml ayyb. Trafodaethau gydag unigolion sydd ag anableddau a allai fanteisio o'r ymyrraeth yma.	Parhaus (2017-2021) Parhaus (2017-2021)